# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Iau, 2 Mawrth 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

**Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09:30)

## 2 Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22 - Sesiwn dystiolaeth - rhan 1

(09:35 - 10:35) (Tudalennau 1 - 35)

Dr Andrew Goodall - Ysgrifenydd Parhaol

Tim Moss - Prif Swyddog Gweithredu

Gawain Evans - Cyfarwyddwr Cyllid

Sally-Ann Efstathiou - Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Gweithrediadau Adnoddau Dynol

**(Egwyl)**

(10:35 - 10:45)

## 3 Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22 - Sesiwn dystiolaeth - rhan 2

(10:45 - 11:45)

Dr Andrew Goodall - Ysgrifenydd Parhaol

Tim Moss - Prif Swyddog Gweithredu

Gawain Evans - Cyfarwyddwr Cyllid

Sally-Ann Efstathiou - Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Gweithrediadau Adnoddau Dynol

## 4 Papurau i'w nodi

(11:45 - 11:50)

### 4.1 Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd - Adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Gyfrifon Comisiwn y Senedd 2021-22

(Tudalennau 36 - 45)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(11:50)

Gweddill y cyfarfod.

## 6 Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22 - Ystyried y dystiolaeth ddaeth i law

(11:50 - 12:15)

## 7 Cydsyniad Deddfwriaethol atodol: Y Bil Caffael

(12:15 - 12:35) (Tudalennau 46 - 86)

## 8 Adroddiad ddrafft - Craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21

(12:35 - 12:55) (Tudalennau 87 - 144)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Chwefror 2023

Annwyl Mark,

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon 2021-22.**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i adroddiad y **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon 2021-22**. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu.

Mae'r Comisiwn yn nodi bod y Pwyllgor yn falch o glywed bod unrhyw danwariant ganddo yn destun gwerthusiad trylwyr, gyda dyraniadau'n cael eu hailfuddsoddi i wella gwasanaethau i staff ac Aelodau. Mae'n nodi bod y Pwyllgor hefyd yn falch o glywed am y fenter YMLAEN.

Er bod cryn dipyn o ffordd i fynd, rydym yn falch bod yr adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y Senedd yn fwy cynrychioladol o amrywiaeth yn y Gymru fodern. Gallaf roi sicrwydd i'r Pwyllgor y bydd y Comisiwn yn parhau i werthuso ei ymgyrchoedd recriwtio gyda'r bwriad o ehangu eu nodau a chynyddu amrywiaeth ei staff.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i roi sicrwydd i'r Pwyllgor ein bod yn parhau i fod mor ymrwymedig ag erioed i ddarparu mwy o eglurder a sicrwydd drwy waith craffu ac archwilio allanol yn ogystal â'n fframwaith llywodraethu mewnol. Rydym wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ymateb y Comisiwn i bandemig COVID-19 a byddwn yn rhannu copi o'r adolygiad hwn â'r Pwyllgor.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Rhoddir sylw llawn i argymhellion eich Pwyllgor ynghylch y Comisiwn yn yr Atodiad sydd ynghlwm. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw fater a gynhwysir yn yr Atodiad, mae croeso ichi roi gwybod i mi.

Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir. Fel arfer, os hoffai eich Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth, cofiwch fod croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir,

Manon Antoniazzi

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad 1**

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon 2021-22.**

**Argymhelliad 1: Hoffai'r Pwyllgor glywed gan y Comisiwn yn flynyddol gyda dadansoddiad o'r prosiectau a weithredwyd fel rhan o'r gronfa brosiectau a'r cyllid a ddyrannwyd i'r prosiectau unigol hyn. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar Gyfrifon y Comisiwn.**

**Derbyniwyd**

Rydym yn croesawu gwaith craffu'r Pwyllgor a'i gais am ragor o wybodaeth am wariant o gronfa brosiectau'r Comisiwn a'r cyllid a ddyrannwyd.

Bydd y Comisiwn yn anfon llythyr at y Pwyllgor, ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2022-23, a fydd yn cynnwys dadansoddiad o'r prosiectau a weithredwyd fel rhan o'r gronfa brosiectau a'r cyllid a ddyrannwyd i'r prosiectau unigol hyn. Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth ychwanegol, pan fo angen, er mwyn sicrhau'r tryloywder gofynnol cyn y sesiwn graffu flynyddol yn ystod hydref 2023.

**Argymhelliad 2: Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y Pwyllgor Sicrwydd Risg, yn benodol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer diwygio'r Senedd yn y dyfodol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ystyriaethau staffio a chyllido yn y dyfodol.**

**Derbyniwyd**

Rydym yn cytuno â barn y Pwyllgor bod gwaith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn hollbwysig a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn benodol mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer diwygio'r Senedd yn y dyfodol, cyn y sesiwn graffu flynyddol yn ystod hydref 2023.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, cyn craffu ar gyfrifon y flwyddyn nesaf, o'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiad o effeithiolrwydd ei ymateb i bandemig COVID-19. Dylai'r wybodaeth ddiweddaraf gynnwys manylion am sut y mae effeithlonrwydd, costau, ac arbedion o newidiadau i ffyrdd o weithio a sut y y mae gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y pandemig wedi'u hymgorffori mewn arferion presennol, a sut y mae'r arbedion hyn wedi'u gwneud yn rhai cylchol.**

**Derbyniwyd**

Rydym yn nodi y byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael copi o'r adolygiad a chytunwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr hyn a ddysgwyd gan y Comisiwn o'r adolygiad o effeithiolrwydd ei ymateb i bandemig COVID-19 cyn y sesiwn graffu flynyddol yn ystod hydref 2023.

**Argymhelliad 4. Dylai'r Comisiwn barhau i ddarparu manylion am y contract a ddyfarnwyd i gyflenwyr o Gymru gan y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r wybodaeth hon gael ei darparu yn ôl maint contract yn y dyfodol, i gynnwys contractau hyd at £10,000, rhwng £10,000 a £50,000, rhwng £50,000 a £100,000 a thros £100,000.**

**Derbyniwyd**

Rydym yn cytuno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd yn y maes hwn cyn y sesiwn graffu flynyddol yn ystod hydref 2023.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Comisiwn rannu crynodeb o ganlyniadau pob arolwg pwls, pan fyddant ar gael, â'r Pwyllgor gan ganolbwyntio ar salwch meddwl, mynegeion salwch meddwl ac absenoldebau staff yn fwy cyffredinol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edrych ymlaen at adolygu canlyniadau'r arolwg staff blynyddol ar gyfer 2022.**

**Derbyniwyd**

Rydym yn cytuno i rannu crynodeb o ganlyniadau'r arolwg pwls nesaf yn ogystal â chanlyniadau'r arolwg staff nesaf, pan fydd y rhain ar gael ddechrau/ganol 2023.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn annog y Comisiwn i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf, pan fydd ar gael, am brosiectau recriwtio staff â'r nod o gynyddu amrywiaeth y sefydliad yn ei gyfanrwydd, yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect YMLAEN, ymhlith eraill.**

**Derbyniwyd**

Rydym yn cytuno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd yn y maes hwn wrth i'r wybodaeth hon ddod i law a chyn y sesiwn graffu flynyddol yn ystod hydref 2023.

**Argymhelliad 7: Dylid rhannu data mewn perthynas ag ymgysylltu yn ystod 2021-22 â'r Pwyllgor, i werthuso effaith adnoddau ymgysylltu ar-lein. Dylai'r Comisiwn ddarparu dadansoddiad o'r mathau o weithgarwch ymgysylltu â'r Pwyllgor a'r rhannau o Gymru sy'n ymgysylltu â'r Senedd neu sy'n ymweld â hi.**

**Derbyniwyd**

Mae'r tabl a ganlyn yn cynnwys gwybodaeth am y mathau o weithgarwch ymgysylltu a'r rhannau o Gymru a fu'n ymgysylltu neu'n ymweld â'r Senedd yn ystod 2021-22.

Mae'r data a ddarperir yn dangos y mathau gwahanol o weithgarwch ymgysylltu yn ystod y cyfnod hwn, nifer y sesiynau a gynhaliwyd a nifer y cyfranogwyr. Mae'r cyfnod hwn yn cynnwys yr adeg cyn Etholiad y Senedd, a'r angen i amrywio ein darpariaeth oherwydd cyfyngiadau o ganlyniad i'r pandemig a effeithiodd ar ein gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Hefyd, bu lleihad yn lefel y gweithgarwch i gefnogi'r pwyllgorau'n uniongyrchol (drwy waith y tîm Ymgysylltu â Dinasyddion) yn ystod y cyfnod pontio rhwng y Bumed a'r Chweched Senedd o'i gymharu â blynyddoedd ariannol eraill oherwydd yr amser a gymerodd i sefydlu'r pwyllgorau ac i'r pwyllgorau hyn ddechrau ar eu gwaith cynllunio strategol cyn penderfynu pa waith craffu i'w wneud.

Gwnaethom lwyddo i addasu ein darpariaeth yn llwyddiannus i ymgysylltu ar-lein, gan ymgysylltu â nifer fawr o bobl ar draws pob ardal awdurdod lleol ar adeg heriol iawn. Rydym wedi dysgu o'r cyfnod hwn i ddarparu arlwy mwy amrywiol ar ôl llacio'r cyfyngiadau, ac rydym bellach yn gallu defnyddio dulliau ymgysylltu wyneb yn wyneb, hybrid a chwbl ar-lein i gyd-fynd ag anghenion prosiectau penodol, a'r cynulleidfaoedd rydym yn gobeithio eu cyrraedd, yn y ffordd orau. Mae hyn yn ein helpu i gynnig opsiynau mwy hygyrch i'r cyhoedd.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein harlwy o ran ymgysylltu yn ystod y misoedd nesaf drwy ganfod adnoddau ymgysylltu ar-lein a fydd yn darparu fforymau digidol i'r cyhoedd ymgysylltu a chyfrannu at waith ein pwyllgorau. Bydd y fforymau hyn hefyd yn ein galluogi i gadw mewn cysylltiad â grwpiau ac unigolion mewn modd mwy diogel fel rhan o'n gwaith ymgysylltu parhaus yn y tymor hwy.

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd



| **Math o ymgysylltiad** | **Nifer y sesiynau / digwyddiadau ar-lein** | **Nifer y sesiynau / digwyddiadau wyneb yn wyneb** | **Nifer y cyfranogwyr / ymwelwyr ar-lein** | **Nifer y cyfranogwyr/ ymwelwyr wyneb yn wyneb** |
|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â Dinasyddion (gan gynnwys grwpiau ffocws, cyfweliadau a digwyddiadau)** | 92 | 11 | 274 | 119 |
| **Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc (gweithdai, cyflwyniadau a digwyddiadau)** | 283 | 20 | 37,882 | 851 |
| **Ymgysylltu â'r Gymuned** | 19 | 0 | 308 | 0 |
| **Teithiau o'r Senedd (gan gynnwys sesiynau 'cyflwyniad i'ch Senedd' a theithiau a drefnwyd ymlaen llaw)** | 86 | 23 (Ailddechreuodd y teithiau hyn yr wythnos yn dechrau 14 Mawrth 2022) | 537 ar gyfer cyflwyniadau ar-lein<br>1,629 (Nifer o sesiynau unigryw yn gwylio'r daith rithwir 360 gradd o'r Senedd) | 566 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymwelwyr â'r Senedd** | Dd/G | Dd/G | Dd/G | 6,463 |
| **Digwyddiadau a noddwyd gan Aelodau o'r Senedd** | 7 (hybrid ac ar-lein) | 34 (Ailddechrau ym mis Tachwedd 2021) | 214 | 1,077 |
| **Digwyddiadau a noddwyd gan y Comisiwn** | 2 | 2 | 100 | 100 |

| **Ardal Awdurdod Lleol (y grŵp, neu lle cynhaliwyd y sesiwn wyneb yn wyneb)** | **Ymgysylltu â Dinasyddion** | **Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc** | **Ymgysylltu â'r Gymuned** | **Teithiau o'r Senedd / sesiynau** | **Ymwelwyr â'r Senedd*** | **Digwyddiadau a noddwyd gan Aelodau o'r Senedd** | **Digwyddiadau a noddwyd gan y Comisiwn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithgarwch yn y Senedd** | 1 | 14 | 0 | 23 | - | 34 | 2 | 74 |
| **Ledled Cymru (gan gynnwys digwyddiadau ar-lein/hybrid** | 39 | 35 | 12 | 86 o sesiynau ar-lein | - | 7 | 2 | 181 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **agored i bawb)** | | | | | | | | |
| **Grwpiau o'r tu allan i Gymru** | 0 | 2 | 0 | 2 | - | - | - | 4 |
| **Blaenau Gwent** | 1 | 1 | 0 | 0 | - | - | - | 2 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 2 | 6 | 0 | 0 | - | - | - | 8 |
| **Caerffili** | 4 | 18 | 0 | 1 | - | - | - | 22 |
| **Caerdydd** | 18 | 30 | 2 | 4 | - | - | - | 54 |
| **Sir Gaerfyrddin** | 0 | 3 | 0 | 0 | - | - | - | 3 |
| **Ceredigion** | 1 | 10 | 0 | 0 | - | - | - | 11 |
| **Conwy** | 3 | 45 | 1 | 0 | - | - | - | 49 |
| **Sir Ddinbych** | 1 | 12 | 0 | 0 | - | - | - | 13 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sir y Fflint** | 2 | 7 | 1 | 0 | - | - | - | 10 |
| **Gwynedd** | 0 | 22 | 0 | 0 | - | - | - | 22 |
| **Ynys Môn** | 4 | 7 | 0 | 0 | - | - | - | 9 |
| **Merthyr Tudful** | 1 | 4 | 0 | 0 | - | - | - | 5 |
| **Sir Fynwy** | 0 | 9 | 0 | 0 | - | - | - | 9 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | 0 | 11 | 0 | 1 | - | - | - | 12 |
| **Casnewydd** | 7 | 26 | 0 | 2 | - | - | - | 35 |
| **Sir Benfro** | 1 | 4 | 1 | 1 | - | - | - | 7 |
| **Powys** | 3 | 5 | 0 | 0 | - | - | - | 8 |
| **Rhondda Cynon Taf** | 7 | 6 | 0 | 0 | - | - | - | 13 |
| **Abertawe** | 5 | 5 | 0 | 0 | - | - | - | 10 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bro Morgannwg** | 0 | 5 | 0 | 0 | - | - | - | 5 |
| **Torfaen** | 0 | 4 | 0 | 1 | - | - | - | 5 |
| **Wrecsam** | 3 | 28 | 0 | 1 | - | - | - | 32 |

*** (dechreuwyd cipio data ym mis Gorffennaf 2022)**



| | |
|---|---|
| Ymweliadau unigryw â thudalennau gwe | 12,858 |
| Nifer y bobl a 'hoffodd' / ddilynodd y cyfryngau cymdeithasol neu ymwelwyr - Facebook | 2,812 |
| Dilynwyr cyfryngau cymdeithasol / ymwelwyr - Twitter | 2,741 |
| Dilynwyr cyfryngau cymdeithasol / ymwelwyr - Instagram | 3,348 |
| Nifer yr edrychiadau ar ein proffil ar draws y tri llwyfan | 46,188 |
| Nifer yr argraffiadau / cyrhaeddiad pob postiad (nifer yr edrychiadau) | 857,768 |

# Eitem 7

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 5)**

**Bil Caffael**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn nodi bod rhaid gosod LCM gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud "darpariaeth berthnasol" (hynny yw darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru) neu os bydd Mesur Seneddol y DU, trwy welliannau a gyflwynir gan un o Weinidogion y Goron neu a gyhoeddir gydag enw un o Weinidogion y Goron neu a gyhoeddir gydag enw un o Weinidogion y Goron yn eu cefnogi, yn y naill Dŷ neu'r llall, sy'n gwneud (neu y byddai'n gwneud) darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf neu y tu hwnt i derfynau cydsyniad sydd eisoes wedi'i roi gan Senedd Cymru.

2. Cyflwynwyd y Bil Caffael ("y Bil") gerbron Senedd y DU yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022 a gosodais LCM ar 9 Mehefin yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.

3. Ar 11 Gorffennaf, gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 2), ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 4 Gorffennaf ac a barodd tan 26 Hydref.

4. Ar 6 Gorffennaf, gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 3), ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 28 Gorffennaf ac a barodd tan 30 Hydref.

5. Ar 19 Rhagfyr, gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 4), yn dilyn gwelliannau anllywodraethol y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 28 Tachwedd ac a barodd tan 30 Tachwedd.

6. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i'w hystyried yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin a ddechreuodd ar 31 Ionawr 2023. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd i'w gweld yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0218/amend/procurement_rm_pbc_0125.pdf. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn yr LCM atodol hwn fel y'u nodir yn y Mesur fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi ac a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr. Mae'r fersiwn hon o'r Bil i'w gweld yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill.pdf

**Amcan(ion) Polisi**

7. Amcanion polisi Lywodraeth y DU a nodwyd ar gyfer y Bil yw:

- cyflymu a symleiddio prosesau caffael cyhoeddus
- sicrhau bod gwerth am arian yn ganolog i'r broses
- creu mwy o gyfleoedd i fusnesau bach a mentrau cymdeithasol arloesi ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus

**Crynodeb o'r Bil**

8. Noddir y Bil gan Swyddfa'r Cabinet (CO).

9. Diben y Bil yw cyflwyno deddfwriaeth ddiwygiedig ar gyfer y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n rheoli caffael cyhoeddus. Bydd yn diwygio'r gyfraith gaffael bresennol (gan gynnwys diddymu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015) sy'n deillio o Gyfarwyddebau'r UE.

10. Mae'r Bil yn rhyngweithio â deddfwriaeth arall, sef y Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (Bil SPPP) a gyflwynwyd gerbron Senedd Cymru ar 7 Mehefin, a'r Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU (Tŷ'r Arglwyddi) ar 11 Mai. Caiff y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) ei ddiddymu gan y Bil Caffael, felly hefyd y diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a wneir gan y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).

11. Mae'r maes caffael yn eithaf cymhleth yn ei ymwneud â chyrff cyhoeddus. Felly, mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r cyfeiriadau canlynol er sicrhau eglurder:

- 'Awdurdodau Contractio' (ACau) - pob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil
- 'Awdurdodau Datganoledig Cymru' (ADCau) - fel y'u diffinnir gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLlC")
- 'Awdurdodau Contractio Cymru' (ACCau) - yr awdurdodau contractio yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r Bil (cyfeirir atynt fel "devolved Welsh authorities" yn y Bil ei hun) ac y mae'r pwerau a'r dyletswyddau perthnasol a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan y Bil yn gymwys iddynt.

**Y diweddaraf ers cyhoeddi'r LCM atodol (Memorandwm Rhif 4) a osodwyd ar 19 Rhagfyr**

12. Gosodais LCM atodol ar 19 Rhagfyr. Roedd yn cynnwys y chwe gwelliant anllywodraethol y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r

Arglwyddi, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

13. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau pellach i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 25 Ionawr. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd ar 15 a 21 Tachwedd, i'r graddau eu bod yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, yn destun yr LCM atodol hwn. Mae **Atodiad A** yn cynnwys tabl sy'n amlinellu'r newidiadau i rifau cymalau yn sgil y gwelliannau a wnaed yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.

14. Cadarnhaodd fy memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol, er fy mod yn fodlon dechrau ar y broses cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru, fod nifer o faterion pwysig oedd yn destun pryder yr oedd angen eu datrys cyn y gallwn ystyried argymell cydsynio. Mae mwyafrif y meysydd hyn wedi’u datrys, gan gynnwys y canlynol:

- Gwelliant i'r diffiniad o ACCau: Y rheswm dros ofyn am welliant i'r diffiniad o ACC oedd er mwyn ei gwneud yn glir pa ddarpariaethau sy'n berthnasol i gaffaeliadau traws-ffiniol. Cafwyd cytundeb bellach ar delerau'r gwelliant ac maent wedi'u cynnwys yng ngwelliannau 66 a 67 (gweler paragraff 18.13 isod am ragor o wybodaeth).
- Pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol: Roedd y Bil yn darparu ar gyfer pwerau cydredol heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fyddai Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi cytuno i'n cais am bwerau cydredol plws, sy'n golygu y bydd angen cydsyniad o dan yr amgylchiadau hyn. 68 yw rhif y gwelliant (gweler paragraff 18.14 isod am ragor o wybodaeth).
- Pwerau Cychwyn: mae'r Cabinet wedi cytuno i gyflwyno gwelliant i’r cymal hwn a fyddai’n sicrhau bod Gweinidog y Goron yn cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cychwyn darpariaethau'r Bil sy’n rheoleiddio caffael gan awdurdod Cymreig datganoledig.

15. Nid yw’r materion canlynol sy’n peri pryder wedi’u datrys eto:

- Mae’r pŵer i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i’r Bil wedi’i gynnwys fel pŵer cydredol, heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fyddai Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig, sy’n annerbyniol i Weinidogion Cymru. Mae darpariaethau tebyg wedi’u cynnwys yn y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd). Mae trafodaethau manwl yn parhau ar lefel

swyddogol a phan fydd cytundeb, disgwylir y bydd canlyniad y trafodaethau hynny yn cael ei adlewyrchu yn y Bil Caffael.

- Mae mater newydd sy'n peri pryder wedi codi o ganlyniad i un o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 25 Ionawr (gweler paragraff 18.12 isod am ragor o wybodaeth). Mae'n ymwneud ag anghydfodau masnach lle gall MoC wneud rheoliadau i ddelio â chanlyniadau caffael anghydfod masnach o dan gytundeb a weithredwyd drwy Atodlen 9 (ond nid y Cytundeb Masnach a Chydweithredu â'r UE, yr ymdrinnir ag ef o dan y ddeddfwriaeth bresennol). Pŵer cydredol felly yw'r pŵer hwn, heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion y DU yn arfer y pŵer mewn perthynas â meysydd datganoledig, sy'n annerbyniol i Weinidogion Cymru.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

16. Cafodd y gwelliannau a amlinellir ym mharagraffau 18.1 i 18.19 ac 19.1 eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Ac eithrio'r gwelliannau i gymal 107 (gweler paragraff 17 isod), ystyrir bod y gwelliannau hyn at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS 29.

17. Nid yw'r diwygiadau i gymal 107 (gweler 18.16) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru i'r graddau eu bod yn gwneud darpariaeth at ddiben rheoleiddio awdurdodau contractio sy'n gweithredu neu y mae eu swyddogaethau'n arferadwy ac eithrio mewn perthynas â Chymru. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth a wneir gan y gwelliannau'n ymwneud â materion datganoledig i'r graddau ei bod ond yn berthnasol mewn perthynas ag awdurdodau contractio y mae eu gweithgareddau'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn weithgareddau nad ydynt yn ymwneud â materion cadw neu y mae eu swyddogaethau'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion cadw. Nid yw hyn yn newid y casgliad yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd ar 9 Mehefin 2022 bod y cymal hwn yn cynnwys darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac felly'n ddarpariaeth berthnasol at ddibenion RhS 29.

18. **Gwelliannau a gyflwynwyd ar 25 Ionawr**

18.1. **Rhestr waharddiadau (3 gwelliant i gymal 62)**

Byddai Gwelliant 42 yn ei gwneud yn gliriach y byddai pob cofnod ar y rhestr waharddiadau yn ymwneud ag un rheswm dros eithrio ac y gallai cyflenwr felly herio pob un yn unigol.

Byddai Gwelliant 43 yn sicrhau y byddai cais am ryddhad dros dro (gweler 18.3) yn atal penderfyniad y Gweinidog i ychwanegu enw cyflenwr at y rhestr waharddiadau.

Byddai Gwelliant 44 yn cyfyngu ar y newidiadau y gallai Gweinidog Swyddfa'r Cabinet eu gwneud i gofnod ar y rhestr waharddiadau, yn sicrhau y caiff Gweinidog Swyddfa'r Cabinet o'i wirfodd atal penderfyniad i ychwanegu cofnod at y rhestr waharddiadau yng ngoleuni apêl, ac yn cadarnhau y caiff Gweinidog Swyddfa'r Cabinet ddileu cofnod os nad yw'r rheswm dros eithriad penodol yn gymwys (hyd yn oed os oes cofnodion eraill yn ymwneud â'r cyflenwr ar y rhestr).

18.2. **Rhestr waharddiadau: Cais i ddileu (3 gwelliant i gymal 63)**

Byddai Gwelliant 45 yn sicrhau y caiff cyflenwyr wneud cais i newid y dyddiad sy'n nodi pryd y bydd yn peidio â bod yn gyflenwr sydd wedi'i eithrio neu'n gyflenwr y gellid ei eithrio.

Mae Gwelliant 46 yn cysylltu â'r gwelliant cyntaf i gymal 62 ym mharagraff 18.1. Byddai'n caniatáu ar gyfer y ffaith caiff cyflenwr wneud ceisiadau ar wahân os oes mwy nag un cofnod amdano ar y rhestr waharddiadau.

Mae Gwelliant 47 yn welliant canlyniadol a fyddai'n caniatáu i gyflenwr herio'r dyddiad sy'n nodi pryd y byddai'n peidio â bod yn gyflenwr sydd wedi'i eithrio neu'n gyflenwr y gellid ei eithrio o dan gymal 62

18.3. **Penderfyniadau gwahardd – rhyddhad dros dro (cymal newydd 9)**

Byddai'r cymal newydd hwn yn caniatáu i gyflenwr wneud cais i atal penderfyniad Gweinidog i ychwanegu ei enw at y rhestr waharddiadau. Os caiff y penderfyniad ei atal, ni fydd modd eithrio'r cyflenwr rhag unrhyw broses gaffael am ei fod ar y rhestr waharddiadau tan y codir yr ataliad.

18.4. **Penderfyniadau gwahardd: Apeliadau (gwelliant i gymal 64)**

Byddai Gwelliant 48 yn newid cymal 64 gan ddileu pŵer i wneud darpariaeth ynghylch apeliadau a rhoi darpariaeth fanwl ynghylch gweithredu apeliadau yn ei le.

**Gwelliannau eraill ynghylch apeliadau yn erbyn gwaharddiad**

Gwelliant i gymal 97. Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau yr ymdrinnir â heriau i benderfyniadau gwahardd o dan adran 64 (penderfyniadau gwahardd: apeliadau).

Gwelliant i gymal 118. Mae’r gwelliant hwn yn ganlyniad i ddileu’r pŵer i wneud darpariaeth ynghylch apeliadau yn erbyn gwaharddiad.

### 18.5. Lleihau cyfnodau amser ar gyfer cyfleustodau ac endidau is-ganolog (gwelliant i gymal 54)

Bydd Gwelliant 34 yn caniatáu cyfnodau amser sylweddol fyrrach nag sy’n arferol i awdurdodau is-ganolog a chyfleustodau ddychwelyd tendrau wrth ddefnyddio'r weithdrefn dendro hyblyg gystadleuol. Cynhwysir yr hyblygrwydd hwn yn y ddeddfwriaeth gaffael bresennol.

Mae Gwelliannau 35 a 36 yn diffinio’r termau a ddefnyddir yng Ngwelliant 34.

### 18.6. Hysbysiadau Newid Contract (diwygio i gymal 74)

Bydd Gwelliant 54 yn dileu'r gwrthddweud yn y cymal am Hysbysiadau Newid Contract ynghylch contractau ysgafn eu cyffyrddiad. Bydd effaith y gwelliant yn sicrhau bod pob contract ysgafn ei gyffyrddiad yn cael ei esemptio rhag y gofyn i gyhoeddi hysbysiad newid contract.

### 18.7. Cyhoeddi Addasiadau (gwelliant i gymal 76)

Bydd Gwelliant 55 yn sicrhau bod y darpariaethau ar gyhoeddi addasiadau ond yn gymwys pan ddylai hysbysiad newid contract gael ei gyhoeddi a bod gwerth sylfaenol y contract dros £5M (boed cyn neu ar ôl gwneud y gwelliant). Mae'r cymal hwn yn parhau i esemptio ACCau rhag y gofyn i gyhoeddi addasiadau i gontract, oni bai bod y contract wedi'i ddyfarnu o dan drefniant caffael cadw.

Mae Gwelliannau 56 i 58 yn ganlyniadol i welliant 55.

### 18.8. Hysbysiadau talu consesiynau (cymal 68)

Bydd Gwelliant 53 yn esemptio pob AC rhag y gofyn i gyhoeddi hysbysiadau talu sy’n ymwneud â chontractau consesiwn. Mae'r mân welliant technegol hwn yn eu halinio â'r cwmpas a nodir yng nghymal 67 a’r telerau talu sydd ymhlyg mewn contractau cyhoeddus (yr eithrir contractau consesiwn rhagddynt) ac yn dod â chysondeb ar draws y cymalau talu.

18.9. **Tendrau anarferol o isel (cymal 19)**

Y bwriad yw y dylai ACau gael peidio â chynnwys tendrau anarferol o isel. Ar hyn o bryd mae'r Bil yn honni ei fod yn caniatáu i AC ystyried bod tendr yn anaddas os yw'r pris yn anarferol o isel wrth newid i ddyfarniad uniongyrchol (gweler cymal 43(2)(c)). Ond nid oes unrhyw ddarpariaeth benodol sy'n caniatáu eithrio tendr am fod pris yn anarferol o isel. Effaith gwelliant 30 felly yw ychwanegu darpariaeth benodol i'r Bil sy'n caniatáu i awdurdod contractio ddiystyru tendrau sy'n cynnig pris anarferol o isel. Byddai Gwelliant 31 yn ei gwneud yn ofynnol i ACau hysbysu cyflenwyr o'r ffaith bod yr AC o'r farn bod y pris yn anarferol o isel gan roi cyfle rhesymol i gyflenwyr ddangos fod y pris yn ymarferol cyn i'r tendr gael ei ddiystyru.

18.10. **Manylebau Technegol (cymal 56)**

Bydd Gwelliannau 37 i 41 yn caniatáu i ACau gyfeirio at safon y DU os yw'r safon yn mabwysiadu safon gyfwerth sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol. Mae'n egluro sut mae AC yn asesu a yw tendrau, cynigion neu geisiadau yn bodloni safonau cyfatebol i safonau'r DU. Mae'r gwelliant yn dileu'r diffiniad o safon ac yn egluro'r diffiniad o safon y Deyrnas Unedig.

Mae'r gwelliannau hyn yn lledu'r cwmpas i gynnwys unrhyw beth sydd ei angen ar AC i sicrhau bod ei safon yn briodol.

18.11. **Systemau Cyfathrebu Electronig (cymalau 66, 67 a 94)**

Byddai Gwelliant 50 yn diwygio Cymal 66 i sicrhau bod ACau yn cael mynnu bod system benodol yn cael ei defnyddio mewn perthynas ag anfonebau electronig. Hefyd, bod AC sy'n awdurdod amddiffyn yn cael ei gwneud yn ofynnol bod y system yn mynnu bod y cyflenwr yn talu ffioedd.

Byddai Gwelliannau 51 a 54 yn diwygio Cymal 67 i egluro ystyr 'anfoneb electronig' a 'ffurf electronig gofynnol' i sicrhau cysondeb â chymal 66. Byddai'r gwelliannau hyn hefyd yn egluro bod cyfeiriad at awdurdod contractio sy'n derbyn anfoneb at ddibenion cymal 67 yn cynnwys derbyn anfoneb electronig drwy system a bennir yn y contract.

Mae pedwar gwelliant i gymal 94 (gwelliannau 61 i 64):

Byddai Gwelliant 61 yn sicrhau bod y gofyniad am systemau electronig yn cael ei gyfyngu i'r caffaeliadau dan sylw.

Byddai Gwelliant 62 yn creu eithriad i hyn lle gall awdurdod contractio godi tâl ar gyflenwyr lle defnyddir y systemau hynny **ar ôl** dyfarnu contract cyhoeddus neu mewn perthynas â marchnad ddeinamig cyfleustod.

Byddai Gwelliannau 63 a 64 yn estyn yr esemptiad o ran risg diogelwch i'r cymal cyfan, gyda'r canlyniad os yw awdurdod contractio yn ystyried system gyfathrebu electronig – neu'r defnydd o un – sy’n peri risg diogelwch, yna nid yw gofynion y cymal yn gymwys.

18.12. **Anghydfodau Masnach (cymal newydd)**

Mae'r cymal hwn yn cynnwys y pŵer i wneud rheoliadau i ddelio â chanlyniadau caffael anghydfodau masnach, sy'n codi o gytundeb a restrir yn Atodlen 9 (ac eithrio'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu gyda'r UE, yr ymdrinnir ag ef o dan y ddeddfwriaeth bresennol).

Rhoddir y pŵer hwn i awdurdod priodol sy'n cynnwys Gweinidogion Cymru.  Bydd Gwelliant 69 yn diwygio cymal 109 fel bod Gweinidog y Goron yn cael arfer y pŵer anghydfodau masnach o dan NC11 mewn perthynas ag awdurdodau Cymreig datganoledig a’r awdurdodau yng Ngogledd Iwerddon sydd wedi’u trosglwyddo.

Effaith y gwelliant hwn yw bod Gweinidog y Goron yn cael arfer y pŵer hwn heb gydsyniad Gweinidogion Cymru, sy'n annerbyniol i Weinidogion Cymru.

Bydd Gwelliant 79 yn diwygio cymal 118 i sicrhau bod y weithred o wneud rheoliadau gan Weinidogion Cymru o dan y cymal hwn yn destun y weithdrefn gadarnhaol. Bydd Senedd Cymru felly yn craffu arno.

18.13. **Cadw contractau ar gyfer darparwyr cyflogaeth â chymorth (cymal 32)**

Byddai Gwelliannau 32 a 33 yn diwygio cymal 32 i sicrhau bod sefydliad yn gallu bodloni prawf "darparwr cyflogaeth â chymorth" os yw rhan o'r sefydliad yn bodloni’r prawf hwnnw a'r rhan honno sy’n cyflawni’r contract, neu bod y prawf yn cael ei fodloni gan weithlu cyfun sefydliadau neu rannau o sefydliadau a fydd gyda'i gilydd yn cyflawni'r contract.

18.14. **Atodlen 2 (Contractau wedi'u hesemptio) – gwelliant i gymhwyso esemptiad ym mharagraff 1(2)**

Bydd Gwelliant 85 yn diwygio Atodlen 2 i’w gwneud yn glir bod contractau sy'n dod o dan yr esemptiad ar gyfer trefniadau fertigol a llorweddol (paragraffau 2 a 3 ar hyn o bryd) bob amser wedi'u hesemptio rhag bod yn gontractau cyhoeddus ac felly wedi'u hesemptio rhag gofynion y Bil.  Bydd rhai contractau amddiffyn a diogelwch (y rhai sy'n dod o fewn y paragraff presennol 25) a chontractau cyfleustodau penodol (y rhai sy'n dod o fewn y paragraffau presennol 31 a 32) hefyd

wedi'u hesemptio bob amser.  Bydd y contractau sydd bob amser wedi'u hesemptio yn cael eu cynnwys yn Rhan 1 newydd Atodlen 2.

Byddai Gwelliant 86 yn creu Rhan 2 newydd o'r enw "Contractau Wedi'u Hesemptio ar Sail Pwnc". Mae hyn yn cadw'r gofyniad gwreiddiol ar i Awdurdodau Contractio ystyried a allai unrhyw un o'r nwyddau, gwasanaethau neu waith sy'n cynrychioli prif bwrpas y contract gael ei gyflenwi'n rhesymol o dan gontract ar wahân, ac a fyddai'r contract hwnnw'n gontract wedi'i esemptio. Mae hyn yn caniatáu i benderfyniad gael ei wneud ynghylch a ddylai'r contract fod yn gontract wedi'i hesemptio. Mae enghraifft o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn rhesymol bellach yn cael ei darparu o fewn y gwelliant, sy'n cynnwys ystyried canlyniadau ymarferol ac ariannol dyfarnu mwy nag un contract.

18.15. **Pŵer i newid trothwyon Prif Ddangosyddion Perfformiad (KPI) (cymal 52) i ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol**

Bydd Gwelliant 78 yn diwygio cymal 118 (Rheoliadau) i sicrhau, pan fydd gwelliant i drothwyon KPI mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan gymal 52, gwneir y rheoliadau o dan y weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn negyddol. Bydd felly'n destun craffu gan Senedd Cymru.

18.16. **Gwelliant i'r diffiniad o ACCau (cymal 107)**

Bydd darpariaethau cymal 107 sy'n ymwneud ag ACau sy'n cael eu trin fel awdurdodau Cymreig datganoledig at ddiben y Ddeddf yn cael eu gwella i sicrhau bod rheolau Cymru yn gymwys i awdurdodau o'r fath os ydynt yn gweithredu neu'n arfer swyddogaethau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ymwneud â Chymru.

Byddai Gwelliant 66 yn golygu y byddai ymgymeriad cyhoeddus neu gyfleustod preifat sy’n gweithredu “yn gyfan gwbl neu’n bennaf mewn perthynas â Chymru” yn cael ei drin fel awdurdod Cymreig datganoledig.

Byddai Gwelliant 67 yn golygu bod awdurdod contractio y mae ei swyddogaethau’n arferadwy “yn gyfan gwbl neu’n bennaf mewn perthynas â Chymru” yn cael ei drin fel awdurdod Cymreig datganoledig ni waeth beth yw pwnc y caffaeliad dan sylw.

18.17. **Pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol (cymal 109)**

Bydd Gwelliant 68 yn diwygio Cymal 109 fel na chaiff Gweinidog y Goron wneud darpariaeth ganlyniadol o dan gymal 121 at ddiben rheoleiddio awdurdod Cymreig datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

18.18 **Atodlen 7**

Byddai Gwelliant 88 yn mewnosod diffiniad o “ddigwyddiad” at ddiben paragraff 16 o Atodlen 7.

18.19 **Gwelliannau sy'n gwyrdroi gwelliannau anllywodraethol y cytunwyd arnynt yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi**

Mae nifer o welliannau sy'n gwyrdroi'r gwelliannau anllywodraethol y cytunwyd arnynt yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi.

I'r graddau bod y diwygiadau hyn yn dileu darpariaethau yr ystyriwyd eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ystyrir bod y gwelliannau hyn hefyd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol ac felly'n gwneud darpariaeth sy’n berthnasol i ddibenion RhS 29.

Dyma'r gwelliannau sy'n gwneud darpariaeth berthnasol:

- Gwelliant 27: Gwelliant i gymal 2 (awdurdodau contractio) i ddileu'r geiriau "including the NHS" yn y diffiniad o "public authority" yng nghymal 2(2).

- Gwelliannau 28 a 29: Gwelliant i gymal 13 (datganiad y polisi caffael cenedlaethol) i ddileu is-adran (3) a (4).

- Gwelliant 49: Dileu cymal 65 (Llinell amser i ddileu cyflenwyr).

- Gwelliant 87: Dileu paragraff 15 o Atodlen 7 (Ymwneud â chynaeafu organau dan orfodaeth).

**19.Gwelliannau a gyflwynwyd ar 2 Chwefror 2023**

**19.1 Cychwyn (cymal 123)**

Byddai Gwelliant 115 yn diwygio cymal 123 i olygu bod angen cydsyniad Gweinidogion Cymru i gychwyn agweddau Cymreig datganoledig y Bil.

Pe bai’r cydsyniad hwnnw’n cael ei wrthod, byddai’r gwelliant yn gwneud darpariaeth fyddai’n caniatáu i Weinidogion y DU ddiwygio’r Ddeddf y bydd y Bil hwn yn esgor arni fel bod y Ddeddf yn peidio â bod yn gymwys mwyach mewn perthynas â chaffaeliadau Cymreig datganoledig ac y gellid ei chychwyn heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

Byddai Gwelliant 113 yn diwygio cymal 107 (Gweinidogion Cymru: cyfyngiadau ar arfer pwerau). Mae’r gwelliant hwn yn ganlyniadol i welliant 115.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Caffael**

19. Gan fod y gwelliannau a drafodir yn yr LCM atodol hwn yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, a chan fod pob un yn ymwneud â'r darpariaethau a nodir mewn LCMau blaenorol, mae'r rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil yn parhau'n gymwys.

**Goblygiadau ariannol**

20. Nodais y goblygiadau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â diwygio caffael cyhoeddus yng Nghymru sy'n debygol o gael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru a'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru yn fy LCM gwreiddiol a osodwyd ar 9 Mehefin.

21. Ni fydd y gwelliannau arfaethedig yn gosod unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol ar Lywodraeth Cymru na'r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

**Casgliadau**

22. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys, ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru.

23. Mae mwyafrif y gwelliannau sy'n cael eu cynnig yn fy marn i'n rhesymol. Gan fod mwyafrif y pryderon wedi'u datrys, rwy'n argymell cydsynio elfennau caffael craidd y Bil, sef y rhan fwyaf o'r Bil. Fodd bynnag, rwy'n argymell peidio â chydsynio'r rhannau hynny o'r Bil sy'n ymwneud â masnach ryngwladol am y rhesymau a ddisgrifir ym mharagraff 15.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**6 Chwefror 2023**

**Atodiad A – Tabl sy'n cymharu fersiynau'r Bil Caffael**

Y Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022:
https://bills.parliament.uk/publications/46439/documents/1777

Y Bil fel y'i diwygiwyd yn Uwch-bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 26 Hydref 2022:
https://bills.parliament.uk/publications/48269/documents/2396

Y Bil (fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi) ar 14 Rhagfyr 2022:
https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill.pdf

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi |
|---|---|---|---|
| *RHAN 1<br>DIFFINIADAU ALLWEDDOL* | | | |
| | **Cymal Newydd fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi** | | 1 |
| 1 | Awdurdodau contractio | 1 | 2 |
| 2 | Contractau cyhoeddus | 2 | 3 |
| 3 | Prisio contractau | 3 | 4 |
| 4 | Caffael cymysg: dros y trothwy ac o dan y trothwy | 4 | 5 |
| 5 | Contractau â chyfleustodau | 5 | 6 |
| 6 | Contractau amddiffyn a diogelwch | 6 | 7 |
| 7 | Contractau consesiwn | 7 | 8 |
| 8 | Contractau llai manwl | 8 | 9 |
| 9 | Caffael cymysg: contractau cyfundrefn arbennig | 9 | 10 |
| *RHAN 2<br>EGWYDDORION AC AMCANION* | | | |
| 10 | Caffael yn unol â'r Ddeddf hon yn unig<br>***Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi***<br>*Cwmpas: Caffael yn unol â'r Ddeddf hon yn unig* | 10 | 11 |
| 11 | Amcanion caffael<br>***Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi***<br>*Cwmpas:* Amcanion caffael | 11 | 12 |
| 12 | Datganiad y polisi caffael cenedlaethol | 12 | 13 |

| **Rhif y cymal wrth ei gyflwyno** | **Disgrifiad o'r cymal** | **Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor** | **Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi** |
|---|---|---|---|
| 13 | Datganiad polisi caffael Cymru | 13 | 14 |
| *RHAN 3*<br>*DYFARNU CONTRACTAU CYHOEDDUS A GWEITHDREFNAU* | | | |
| ***PENNOD 1***<br>*CAMAU CYCHWYNNOL* | | | |
| 14 | Hysbysiadau caffael wedi'u cynllunio | 14 | 15 |
| 15 | Ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad | 15 | 16 |
| 16 | Hysbysiadau ymgysylltu cychwynnol â'r farchnad | 16 | 17 |
| 17 | Dyletswydd i ystyried lotiau | 17 | 18 |
| ***PENNOD 2 DYFARNU CYSTADLEUOL*** | | | |
| *Telerau caffael* | | | |
| 18 | Dyfarnu contractau cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn gystadleuol<br>**Teitl cymal diwygiedig:**<br>*Dyfarnu contractau cyhoeddus yn dilyn gweithdrefn dendro gystadleuol* | 18 | 19 |
| 19 | Gweithdrefnau tendro cystadleuol | 19 | 20 |
| 20 | Hysbysiadau tendro a dogfennau tendro cysylltiedig | 20 | 21 |
| 21 | Amodau cyfranogiad | 21 | 22 |
| 22 | Meini prawf dyfarnu | 22 | 23 |
| 23 | Mireinio meini prawf dyfarnu | 23 | 24 |
| 24 | Manylebau Technegol<br>***Cymal diwygiedig:*** *Mae'r cymal hwn wedi'i symud i* ***Bennod 6 'Darpariaeth gyffredinol ynghylch dyfarniadau a gweithdrefnau'****, o dan is-adran newydd "Manylebau technegol"* | *53* | *56* |
| 25 | Manylebau is-gontractio | 24 | 25 |
| *Atal ac addasiadau* | | | |

| **Rhif y cymal wrth ei gyflwyno** | **Disgrifiad o'r cymal** | **Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor** | **Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi** |
|---|---|---|---|
| 26 | Atal cyflenwyr rhag dyfarniad cystadleuol | 25 | 26 |
| 27 | Atal cyflenwyr rhag gweithdrefn dendro gystadleuol<br>**Teitl cymal diwygiedig**: Atal cyflenwyr rhag *gweithdrefn* hyblyg gystadleuol | 26 | 27 |
| 28 | Atal cyflenwyr drwy gyfeirio at is-gontractwyr | 27 | 28 |
| 29 | Atal cyflenwr sy'n fygythiad i ddiogelwch cenedlaethol | 28 | 29 |
| 30 | Atal cyflenwyr am ymddygiad amhriodol | 29 | 30 |
| 31 | Addasu caffael adran 18<br>***Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:***<br>Addasu *caffael adran 19* | 30 | 31 |
| *Cadw contractau i gyflenwyr penodol* | | | |
| 32 | Neilltuo contractau i ddarparwyr cyflogaeth â chymorth | 31 | 32 |
| 33 | Neilltuo contractau i gwmnïau cydfuddiannol y sector cyhoeddus | 32 | 33 |
| *Dyfarnu contractau drwy gyfeirio at farchnadoedd deinamig* | | | |
| 34 | Dyfarnu cystadleuol drwy gyfeirio at farchnadoedd deinamig | 33 | 34 |
| 35 | Marchnadoedd deinamig: sefydlu | 34 | 35 |
| 36 | Marchnadoedd deinamig: aelodaeth | 35 | 36 |
| 37 | Marchnadoedd deinamig: tynnu aelodau o'r farchnad | 36 | 37 |
| 38 | Marchnadoedd deinamig: ffioedd | 37 | 38 |
| 39 | Hysbysiadau marchnadoedd deinamig | 38 | 39 |
| | **Cymal Newydd fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:**<br>Hysbysiadau marchnad ddeinamig cyfleustodau | | 40 |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi |
|---|---|---|---|
| | cymwys: Dim dyletswydd i gyhoeddi tendr | | |
| ***PENNOD 3*** ***DYFARNU UNIONGYRCHOL*** | | | |
| 40 | Dyfarnu uniongyrchol mewn achosion arbennig | 39 | 41 |
| 41 | Dyfarnu uniongyrchol i ddiogelu bywyd, etc | 40 | 42 |
| 42 | Newid i ddyfarnu uniongyrchol | 41 | 43 |
| 43 | Hysbysiadau tryloywder | 42 | 44 |
| ***PENNOD 4*** ***DYFARNU O DAN FFRAMWEITHIAU*** | | | |
| 44 | Fframweithiau | 43 | 45 |
| | **Cymal Newydd fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:** Fframweithiau: Proses Dewis Cystadleuol | | 46 |
| 45 | Fframweithiau: uchafswm cyfnod | 44 | 47 |
| 46 | Fframweithiau: telerau ymhlyg | 45 | 48 |
| 47 | Fframweithiau agored | 46 | 49 |
| ***PENNOD 5*** ***AR ÔL DYFARNU, CYFNODAU SEGUR A HYSBYSIADAU*** | | | |
| 48 | Hysbysiadau dyfarnu contract a chrynodebau asesu | 47 | 50 |
| 49 | Cyfnodau segur ar ôl dyfarnu contractau | 48 | 51 |
| 50 | Dangosyddion perfformiad allweddol | 49 | 52 |
| 51 | Hysbysiadau manylion contract a chyhoeddi contractau | 50 | 53 |
| ***PENNOD 6*** ***DARPARIAETH GYFFREDINOL YNGHYLCH DYFARNU A GWEITHDREFNAU*** | | | |
| *Terfynau amser a therfynu* | | | |
| 52 | Terfynau amser | 51 | 54 |
| 53 | Hysbysiadau terfynu caffael | 52 | 55 |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi |
|---|---|---|---|
| *Manylebau Technegol* | | | |
| 24 | Manylebau Technegol<br>***Cymal diwygiedig:*** *Mae'r cymal hwn wedi'i symud i* ***Bennod 6 'Darpariaeth gyffredinol ynghylch dyfarniadau a gweithdrefnau'****,* o dan is-adran newydd "Manylebau technegol" | *53* | *56* |
| *Atal cyflenwyr* | | | |
| 54 | Ystyr cyflenwr wedi'i atal a chyflenwr y gellir ei atal | 54 | 57 |
| 55 | Ystyried a yw cyflenwr wedi'i atal neu y gellir ei atal | 55 | 58 |
| *Gwahardd* | | | |
| 56 | Hysbysiad atal cyflenwr | 56 | 59 |
| 57 | Ymchwiliadau i'r cyflenwr: rhesymau dros atal | 57 | 60 |
| 58 | Ymchwiliadau o dan adran 57: adroddiadau<br>***Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:***<br>Ymchwiliadau o dan adran 60*:* *adroddiadau* | 58 | 61 |
| 59 | Rhestr waharddiadau | 59 | 62 |
| 60 | Rhestr waharddiadau: cais i ddileu | 60 | 63 |
| 61 | Penderfyniadau gwahardd: apeliadau | 61 | 64 |
| | **Cymal Newydd fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:**<br>Llinell amser i gael gwared ar gyflenwyr | | 65 |
| *RHAN 4*<br>*RHEOLI CONTRACTAU CYHOEDDUS* | | | |
| *Telerau ymhlyg mewn contractau cyhoeddus* | | | |
| 62 | Anfonebu electronig: teler ymhlyg | 62 | 66 |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi |
|---|---|---|---|
| 63 | Telerau talu ymhlyg mewn contractau cyhoeddus | 63 | 67 |
| | *Hysbysiadau am daliadau a pherfformiad* | | |
| 64 | Hysbysiadau cydymffurfio â'r gofynion talu | 64 | 68 |
| 65 | Gwybodaeth am daliadau dan gontractau cyhoeddus | 65 | 69 |
| 66 | Asesu perfformiad contract | 66 | 70 |
| | *Is-gontractio* | | |
| 67 | Is-gontractio: cyfarwyddiadau | 67 | 71 |
| 68 | Telerau talu ymhlyg mewn is-gontractau | 68 | 72 |
| | *Addasu contractau cyhoeddus* | | |
| 69 | Addasu contract cyhoeddus | 69 | 73 |
| 70 | Hysbysiadau newid contract a chyhoeddi addasiadau ***Teitl cymal diwygiedig:*** *Hysbysiadau newid contract* | 70 | 74 |
| 71 | Cyfnod segur gwirfoddol wrth addasu contractau | 71 | 75 |
| Amherthnasol | ***Cymal newydd yn y Bil Diwygiedig:*** *Cyhoeddi addasiadau* | *72* | *76* |
| | *Terfynu contractau cyhoeddus* | | |
| 72 | Hawl ymhlyg i derfynu contractau cyhoeddus | 73 | 77 |
| Amherthnasol | ***Cymal newydd yn y Bil Diwygiedig:*** *Terfynu contractau cyhoeddus: diogelwch cenedlaethol* | *74* | *78* |
| 73 | Hysbysiadau terfynu contract | 75 | 79 |
| | *RHAN 5 GWRTHDARO BUDDIANNAU* | | |
| 74 | Gwrthdaro buddiannau: dyletswydd i nodi | 76 | 80 |
| 75 | Gwrthdaro buddiannau: dyletswydd i liniaru | 77 | 81 |
| 76 | Asesiadau gwrthdaro | 78 | 82 |

| **Rhif y cymal wrth ei gyflwyno** | **Disgrifiad o'r cymal** | **Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor** | **Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi** |
|---|---|---|---|
| *RHAN 6<br>CONTRACTAU O DAN Y TROTHWY* | | | |
| 77 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy | 79 | 83 |
| 78 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: gweithdrefn | 80 | 84 |
| | **Cymal Newydd fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:** Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: dyletswydd i ystyried busnesau bach a chanolig | | 85 |
| 79 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: hysbysiadau | 81 | 86 |
| 80 | Contractau rheoleiddiedig o dan y trothwy: telerau talu ymhlyg | 82 | 87 |
| *RHAN 7<br>CADW AT YMRWYMIADAU RHYNGWLADOL* | | | |
| 81 | Cyflenwyr gwladwriaeth cytuniad | 83 | 88 |
| 82 | Cyflenwyr gwladwriaeth cytuniad: dim gwahaniaethu | 84 | 89 |
| 83 | Cyflenwyr gwladwriaeth cytuniad: dim gwahaniaethu yn yr Alban | 85 | 90 |
| *RHAN 8<br>GWYBODAETH A HYSBYSIADAU: DARPARIAETH GYFFREDINOL* | | | |
| 84 | Hysbysiadau piblinell | 86 | 91 |
| 85 | Esemptiadau cyffredinol o ddyletswyddau i gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth | 87 | 92 |
| 86 | Hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth: rheoliadau<br>***Teitl cymal diwygiedig fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:***<br>*Hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth: Rheoliadau a system ar-lein* | 88 | 93 |

| **Rhif y cymal wrth ei gyflwyno** | **Disgrifiad o'r cymal** | **Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor** | **Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi** |
|---|---|---|---|
| 87 | Cyfathrebu electronig | 89 | 94 |
| 88 | Gwybodaeth yn ymwneud â chaffael | 90 | 95 |
| Amherthnasol | ***Cymal newydd yn y Bil Diwygiedig:*** *Diogelu data* | *91* | *96* |
| *RHAN 9*<br>*RHWYMEDÏAU AM DORRI DYLETSWYDD STATUDOL* | | | |
| 89 | Dyletswyddau o dan y Ddeddf hon sy'n orfodadwy mewn achosion sifil | 92 | 97 |
| 90 | Atal yn awtomatig ymrwymo i gontractau neu eu haddasu | 93 | 98 |
| 91 | Rhwymedïau interim | 94 | 99 |
| 92 | Rhwymedïau cyn-gontractiol | 95 | 100 |
| 93 | Rhwymedïau ôl-gontractiol | 96 | 101 |
| 94 | Rhwymedïau ôl-gontractiol: amodau neilltuo | 97 | 102 |
| 95 | Terfynau amser ar hawliadau | 98 | 103 |
| *RHAN 10*<br>*GORUCHWYLIO CAFFAEL* | | | |
| 96 | Ymchwiliadau caffael | 99 | 104 |
| 97 | Argymhellion yn dilyn ymchwiliadau caffael | 100 | 105 |
| 98 | Canllawiau yn dilyn ymchwiliadau caffael | 101 | 106 |
| *RHAN 11*<br>*AWDURDODAU PRIODOL A CHAFFAEL TRAWSFFINIOL* | | | |
| 99 | Gweinidogion Cymru: cyfyngiadau ar arfer pwerau | 102 | 107 |
| 100 | Adran Gogledd Iwerddon: cyfyngiadau ar arfer pwerau | 103 | 108 |
| 101 | Gweinidog y Goron: cyfyngiadau ar arfer pwerau | 104 | 109 |
| 102 | Diffiniadau yn ymwneud â threfniadau caffael | 105 | 110 |
| 103 | Pwerau yn ymwneud â threfniadau caffael | 106 | 111 |
| *RHAN 12*<br>*DIWYGIO A DIDDYMU* | | | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi |
|---|---|---|---|
| 104 | Datgymhwyso dyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1988 | 107 | 112 |
| 105 | Contractau amddiffyn un ffynhonnell | 108 | 113 |
| 106 | Pwerau cydredol a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 | 109 | 114 |
| 107 | Diddymiadau etc | 110 | 115 |
| *RHAN 13 CYFFREDINOL* | | | |
| 108 | Pŵer i ddatgymhwyso'r Ddeddf hon mewn perthynas â chaffael gan GIG yn Lloegr | 111 | Dileu |
| | **Cymal Newydd fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:** Cymhwyso'r Ddeddf hon i gaffael gan GIG Lloegr | | 116 |
| 109 | Pŵer i ddiwygio'r Ddeddf hon mewn perthynas â chyfleustodau preifat | 112 | 117 |
| 110 | Rheoliadau | 113 | 118 |
| 111 | Dehongli | 114 | 119 |
| 112 | Mynegai ymadroddion diffiniedig | 115 | 120 |
| 113 | Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, etc | 116 | 121 |
| 114 | Rhychwant | 117 | 122 |
| 115 | Cychwyn | 118 | 123 |
| 116 | Teitl byr | 119 | 124 |
| **YR ATODLENNI** | | | |
| Atodlen 1 | Symiau trothwy | Atodlen 1 | Atodlen 1 |
| Atodlen 2 | Contractau esempt | Atodlen 2 | Atodlen 2 |
| Atodlen 3 | Amcangyfrif gwerth contract | Atodlen 3 | Atodlen 3 |
| Atodlen 4 | Gweithgareddau cyfleustodau | Atodlen 4 | Atodlen 4 |
| | **Rhan Cymal Newydd fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:** Rhan 1 Gweithgareddau sy'n weithgareddau cyfleustodau | | |
| | **Rhan Cymal Newydd fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi:** | | |

| Rhif y cymal wrth ei gyflwyno | Disgrifiad o'r cymal | Y cymal fel y'i diwygiwyd yn yr Uwch-bwyllgor | Y cymal fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi |
|---|---|---|---|
| | Rhan 2 Gweithgareddau nad ydynt yn weithgareddau cyfleustodau | | |
| Atodlen 5 | Cyfiawnhau gwobrau uniongyrchol | Atodlen 5 | Atodlen 5 |
| Atodlen 6 | Rhesymau dros atal gorfodol | Atodlen 6 | Atodlen 6 |
| | Rhan 1 Troseddau | Rhan 1 Troseddau | Rhan 1 Troseddau |
| | Rhan 2 Rhesymau eraill dros atal gorfodol | Rhan 2 Rhesymau eraill dros atal gorfodol | Rhan 2 Rhesymau eraill dros atal gorfodol |
| | Rhan 3 Cyffredinol | Rhan 3 Cyffredinol | Rhan 3Cyffredinol |
| Atodlen 7 | Rhesymau dros atal yn ôl disgresiwn | Atodlen 7 | Atodlen 7 |
| Atodlen 8 | Addasiadau contract a ganiateir | Atodlen 8 | Atodlen 8 |
| Atodlen 9 | Cyflenwyr gwladwriaeth cytuniad (cytundebau rhyngwladol penodedig) | Atodlen 9 | Atodlen 9 |
| Atodlen 10 | Contractau amddiffyn un ffynhonnell | Atodlen 10 | Atodlen 10 |
| Atodlen 11 | Diddymiadau a dirymiadau | Atodlen 11 | Atodlen 11 |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon